

ADOLYGIADAU  
★★★★★  
GWYCH

**BROADWAY**  
BROADBAND

FFEIBR | DI-WIFR | TELEFFONI VoIP

“Go wir?  
Ffeibr go iawn  
am ddim ond  
£19.99...

**Dwi wrth fy  
modd!**”



# helo 'na!

Technoleg eh... mae pawb yn ei defnyddio a dydy band eang dibynadwy o ansawdd uchel ddim yn cael ei ystyried fel rhywbeth moethus i'w gael erbyn hyn, mae pobl yn disgwyl hynny.

Heddiw rydyn ni'n llawer mwy dibynnol ar dechnoleg – ar gyfer gwaith, addysg, difyrro'r teulu gyda gwasanaethau ffrydio ffilmiau neu gerddoriaeth, neu gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, dyna'n union beth rydyn ni i gyd yn ei wneud. Yn ogystal, gall band eang o ansawdd uchel wella gwerth eich cartref hefyd.

Yn Broadway, rydyn ni'n angerddol am yr hyn a wnawn. Rydyn ni'n ymroddedig i sicrhau bod pawb yn cael y band eang sydd ei angen arnyn nhw. Ein huchelgais yw darparu band eang gwych a fforddiadwy i 100% o'r bobl a'r busnesau lle bynnag rydyn ni'n mynd – gan bontio'r gagendor digidol.

Rydyn ni'n gwmni ifanc sy'n defnyddio technoleg cyfredol gan ganolbwyntio ar gysylltedd cyflym. Mae hyn yn golygu ein bod yn hynod effeithlon ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn ein prisiau, sef rhai o'r rhataf yn y DU, felly gwerth gwych am arian.

Rydyn ni'n gweithio gyda chwsmeriaid unigol, cymunedau, cynghorau lleol a sefydliadau llywodraeth cenedlaethol, ac mae gennym enw da am gynnig atebion pan fydd eraill efallai wedi methu. Rydyn ni wedi llunio'r daflen hon i roi crynodeb i chi o bwy ydyn ni a beth a wnawn, ond ewch i **[www.broadwaybroadband.co.uk](http://www.broadwaybroadband.co.uk)** i gael gwybod mwy.

Os ydych am fynd amdani, gobeithio'n fawr y gwelwn ni chi fel cwsmer cyn bo hir.

Yn gywir,



Michael Armitage - Cadeirydd a PSG

**BROADWAY**  
BROADBAND



# hynod o gyflym - ddim yn golygu hynod o ddrud

## Ffeibr hynod gyflym o £19.99

Mae ein gwasanaethau ffeibr yn cynnig cyflymdra o 100Mbps a thu hwnt, gyda data diderfyn a'r gwaith gosod AM DDIM\* (gwerth hyd at £7,000) – y cyfan o £19.99 y mis.

## Rydyn ni'n cynnig ystod o opsiynau ffeibr

Mae gan ein 100Mbps safonol gyflymder lanlwytho o 30Mbps.

Mae gennym opsiynau ar gyfer 300 & 1000Mbps, a gallant gyd-fynd â'r cyflymder lanlwytho a lawrlwytho pe bai angen cysylltedd cyflymach fyth arnoch. Rydyn ni hefyd yn cynnig atebion masnachol a phreswyl os oes angen chwistrelliad hynod gyflym ar eich busnes!

## Ein gwasanaeth teleffoni

Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth teleffoni blaengar drwy ddefnyddio cysylltiad eich band eang. Yr enw technegol yw "Voice over Internet Protocol", (VoIP - defnyddiol mewn noson gwis), ac mae'n cynnig arbedion mawr dros eich hen wasanaeth llinell dir. Mae'r nodweddion galwadau yn wych ac mae ein gwasanaeth trosglwyddo hyd yn oed yn caniatáu i chi gadw eich rhif ffôn presennol. Ewch ar-lein i [www.broadwaybroadband.co.uk/VOIP/](http://www.broadwaybroadband.co.uk/VOIP/) Rydym hefyd yn cynnig atebion busnes pwrpasol - cysylltwch â ni!

ADOLYGIADAU

★★★★★

★GWYCH

“Gwasanaeth band eang hynod ddibynadwy, gwelliant mawr ar ein hen gyflenwr.”

EDWARD

# partneriaeth gymunedol

## Mae'n fater o gydweithio yn dydy?

Mae adeiladau rhwydweithiau yn broses gostus, ac rydyn ni'n adeiladu'r gorau. Felly mae ein rhwydwaith yn seiliedig ar alw cwsmeriaid am ein gwasanaeth – y mwyaf sy'n cofrestru, y cyflymaf y byddwn yn dod.

Os oes gennych diddordeb mewn derbyn ffeibr go iawn a chael band eang hynod gyflym, yna ewch i [www.broadwaybroadband.co.uk](http://www.broadwaybroadband.co.uk), nodwch eich cod post a llenwch y ffurflen. Os ydych wedi cofrestru'n barod, **diolch yn fawr** a does dim angen i chi ail-nodi eich manylion

Ar ôl i chi gofrestru'ch diddordeb, byddwn yn eich diweddarau am ein cynnydd ar e-bost - pan fydd cynlluniau'n cael eu cadarnhau byddwn mewn cysylltiad i drafod yr hyn sy'n digwydd nesaf, ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Rydyn ni wastad yn chwilio am bobl i'n helpu i ledaenu'r gair, felly os hoffech chi helpu yna rhowch wybod i ni pan fyddwch chi'n llenwi'r ffurflen.

Cofiwch na all band eang hynod gyflym gael ei ddarparu i'ch cartref nes bod digon o bobl wedi cytuno i gofrestru. Felly gwnewch eich rhan i'r gymuned drwy gofrestru eich diddordeb heddiw a rhannwch eich syniadau ar sut gallwn ddarparu ffeibr i'ch cymuned yn gynt.

## Dal mewn contract gyda rhywun arall?

Gallwch gofrestru am ddim a does dim rheidrydd i archebu. Mae'n caniatáu i ni weld lle mae'r galw am ffeibr. Pan fyddwn yn gwybod bod yna alw a bod y rhwydwaith wedi'i gynllunio, byddwn nôl mewn cysylltiad i ofyn i chi archebu. Os ydych chi dal mewn contract, peidiwch â phoeni - rhowch wybod i ni a byddwn yn gwneud ein gorau i ddod o hyd i drefniant sy'n gweithio i chi.





# cyllido

## ein rhwydweithiau

Gydag addewid y Llywodraeth am fand eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit i bawb erbyn 2025, does dim rhaid i ni setlo am y band eang arferol, neu weithiau, band eang sy'n wael iawn.


Yn Broadway, nid yn unig ein bod wedi profi'n hunain ond rydym hefyd yn cynnig gwerth anhygoel. Rydyn ni eisoes yn gweithio'n agos gyda llywodraeth genedlaethol a lleol, ochr yn ochr â grwpiau cymunedol ledled Cymru a'r Alban, i adeiladu nifer o rwydweithiau ffeibr-i'r-adeilad – lle na all cwmnïau eraill wneud neu lle nad ydyn nhw'n fodlon gwneud hynny.

Ond ein hangerdd yw parhau i bontio'r gagendor digidol ar gyfer hyd yn oed mwy o gymunedau gwledig, drwy roi mynediad i drigolion i gyflymder o hyd at 1000Mbps – a byddem wrth ein bodd yn helpu eich cymuned chi.

Gall adeiladu'r rhwydweithiau hyn fod yn broses gostus, ond mae Cyllid ar gael gan y llywodraeth drwy'r Cynllun Talebau Gigabit y DU, Cyflymu Cymru, a Chynllun Talebau Band Eang yr Alban, sydd nid yn unig yn helpu i ariannu'r gwaith adeiladu, ond yn rhoi'r hawl i chi gael y gwaith gosod am ddim hefyd.

Mae'r ddau gynllun hyn yn cael eu harwain gan gyflenwyr, a byddwn yn dewis y cynllun sy'n gweddu orau i'ch prosiect. Serch hynny, er mwyn i ni symud ymlaen i adeiladu'r ffeibr, mae angen i ni ddangos i'r Llywodraeth fod lefel ddigonol o ddiddordeb drwy gyflwyno'ch cartref neu fusnes fel rhan o gais y prosiect.

## Y broses



ADOLYGIADAU  
★★★★★  
GWYCH

Ni allai'r tîm yn Broadway fod wedi bod yn fwy o help, wrth drafod ein opsiynau ar gyfer y gwasanaeth a'r cyfathrebu ar ôl hynny a'r gwaith gosod. Roedden ni'n falch iawn ein bod wedi dewis Broadway.

EWAN CAMERON

# ein enw da

Rydyn ni'n gwmi profiadol, gyda chefnogaeth buddsoddwyr profiadol, ac yn ein ffordd ddiymhongar ein hunain, rydyn ni wedi bod yn gwneud y byd cyfathrebu yn lle gwell ers 2016.

## RYDYN NI'N GWNEUD Y GWAITH ANODD

Rydyn ni'n edrych ar bethau'n wahanol a thrwy ddefnyddio'r technolegau diweddaraf, gallwn gyrraedd y llefydd na all rhwydweithiau eraill.

## CWMNI NEWYDD, GYDA THECHNOLEG NEWYDD A Ffordd NEWYDD O FEDDWL

Ni oedd y cwmni cyntaf yn Ewrop i gyflwyno TV WhiteSpace yn fasnachol, pan wnaethon ni ddechrau yn 2016 ar Ynys Arran. Ni oedd y cyntaf i brofi bod technoleg 60GHz Mesh yn gweithio mewn ardal wledig. Ac ochr yn ochr â thechnoleg wych, rydyn ni'n defnyddio modelau busnes, masnachol ac ariannol arloesol i ddatrys problemau.

## RYDYN NI'N DDARPARWR SYDD WEDI ENNILL GWOBRAU

Rydyn ni wedi ennill nifer o wobrau yn y blynyddoedd diwethaf: 'Arloesi Technolegol' gyda'n gwaith arloesol gyda TV WhiteSpace, gan gyrraedd llefydd oedd yn amhosib bron yn y gorffennol. 'Defnydd mwyaf hylaw o 5G' ar gyfer cyflenwi gwasanaeth all drosglwyddo data ar gyfradd gigabeit yn ardaloedd mwyaf anghysbell cefn gwlad Cymru, ac enillodd ein rhwydwaith Stormontfield yn Perthshire y 'Prosiect Cymunedol Gorau'.

## RYDYN NI'N GWEITHIO GYDA'R GORAU

Rydyn ni'n lwcus i weithio gyda'r gorau yn y diwydiant. Ac rydyn ni wrth ein bodd yn gweithio mewn partneriaeth, gyda chwsmeriaid a chyflenwyr. Felly os ydych chi'n chwilio am ateb ar gyfer eich cartref neu fusnes gwledig, neu'ch cymuned gyfan; neu os ydych yn chwilio am ffordd gynhwysfawr a chyfannol o drwsio'r broblem cysylltedd digidol, yna gallwn ni helpu.

## MAE GYDA NI'R ENW DA

Rydyn ni'n gyflenwr cofrestredig o dan raglen Cysylltedd Gigabit Gwledig Llywodraeth y DU, mae gennym Bwerau Cod Ofcom llawn, rydym yn ddefnyddwyr achrededig seilwaith PIA 'duct-and-pole' Openreach, mae gennym achrediad ISO 9001, 14001 a 45001 ac rydym yn gweithio'n gyfartal gyda chynghorau, cymunedau a chwsmeriaid lleol.

**BROADWAY**  
**BROADBAND**

Pwy bynnag, ble bynnag - rydyn ni'n cysylltu cymunedau



barn ein

# cwsmeriaid

Does dim ots beth yw ein barn ni, barn ein cwsmeriaid sy'n ein gwneud ni'n falch. Rydyn ni wedi cael sgôr 'Gwych' ar Reviews.co.uk, ac mae hynny'n rhoi gwên ar ein hwyneb bob dydd.

Rydyn ni'n gwybod beth rydyn ni'n ei wneud, ac mae hynny'n dangos. Ers dechrau ar Arran nôl yn 2016, rydyn ni wedi ehangu i Inverness-shire, Perth & Kinross, Sir Fynwy, Stirlingshire ac Ayrshire – gan ddenu cannoedd o gwsmeriaid bodlon ar hyd y ffordd.

Mae Broadway Partners wir yn credu na ddylai fod mewn ardal anghysbell yng nghefn gwlad olygu gwasanaeth rhynggrwyd is na'r safon. Cyn newid darparwr, fe ges i drafferth gwneud y tasgau digidol mwyaf sylfaenol fel agor e-byst, agor dolenni a phori gwefannau.

Nawr mae gen i fynediad i'r dechnoleg ryfeddol yma – a phroses osod ddi-drafferth – mae wedi chwyldroi'r ffordd rwy'n rhedeg fy musnes. Ar wahân i'r gwaith, mae wedi cael gwared ar y teimlad ynysig ac rwyf bellach yn ffrydio ffilmiau yn fyw, gwneud FaceTime gyda fy mab yn America a chadw fy anifeiliaid anwes mewn bwyd hefyd. Rwy'n dibynnu ar y we am gynifer o bethau, a heb y cysylltiad hwn, ni fyddwn yn gallu bodoli yn nyfnderoedd cefn gwlad. Hwre Broadway.

SHONA REDMAYNE, SHISKINE, YNYS ARANN

ADOLYGIADAU



GWYCH

Mae Broadway Partners yn wych, y gwasanaeth cwsmer gorau o blith unrhyw gwmni rwyf wedi delio â nhw. Gan ddechrau gyda Michelle a drefnodd i beiriannwr ddod i'r bwthyn yn gyflym iawn, ac yna Keith y peiriannwr, a dreuliodd amser yn dod o hyd i'r lleoliad cywir ar gyfer yr antena. Cafodd hyn i gyd ei wneud yn gyflym dros ben wrth i ni ddechrau cyfnod clo COVID-19, ac er nad dyna'r peth pwysicaf ar y pryd, roedd yn caniatáu i ni gael y cysur o weithio gartref. Rhywbeth nad ydyn ni erioed wedi'i gael gydag EE a BT. Diolch yn fawr!

NIA HOON

ADOLYGIADAU



GWYCH



## YMUNWCH Â THEULU BROADWAY

Ffeibr Hynod Gyflym Gwerth Gorau yn  
y DU o £19.99 y mis

Gosod am ddim gwerth £7,000

Cwmni cenedlaethol gyda gwerthoedd lleol  
Gweithio gyda chwsmeriaid a chymunedau  
mewn partneriaeth

Gwasanaeth cwsmer gwych – sgôr o 4.8\* ar  
Reviews.co.uk

Cyflenwr profedig o gysylltedd 100Mbps

**A PHOBL NEIS I DDELIO Â NHW!**

### Mewn contract gyda darparwr arall?

Dim problem - dywedwch wrthym a byddwn yn datrys rhywbeth. Cofrestrwch eich diddordeb nawr, a helpwch eich cymuned i gael ffeibr gwych!

[www.broadwaybroadband.co.uk](http://www.broadwaybroadband.co.uk)

# BROADWAY

---

## BROADBAND

Pwy bynnag, ble bynnag - rydyn ni'n cysylltu cymunedau

Mae Broadway Broadband yn enw masnach Broadway Partners Ltd, sy'n gwmbni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif cwmni 07702073 gyda'i swyddfa gofrestredig yn Tempest Building, Titebarn Street, Lerpwl L2 2DT, a Broadway Scotland Ltd, cofrestrwyd yn yr Alban o dan y rhif cwmni SC561606 gyda'i swyddfa gofrestredig yn Tontine, 20 Trongate, Glasgow G1 5NA.